# POLISI MARCIO

Mae'r ffyrdd y caiff asesiadau eu marcio a'u graddio yn un o'r ffyrdd sylfaenol a ddefnyddir i ddiffinio a dangos esiampl o safonau academaidd. Mae'n ganolog i weithredu system asesu sy'n ddilys, yn ddibynadwy, ac yn dryloyw. Diben y ddogfen hon yw nodi sut y caiff tegwch a thryloywder wrth farcio eu cynnal ar draws y Brifysgol. Bydd dilyn yr arweiniad yn sicrhau bod yr hyder sydd eisoes yn amlwg yn safonau dyfarniadau'r Brifysgol ac uniondeb marcio yn cael eu cynnal. Bydd hefyd yn gwella'r cysylltiadau rhwng marcio, adborth academaidd, a pholisïau a phrosesau asesu eraill cysylltiedig.

# CYNNWYS

en

**Meini Prawf Asesu a Chynlluniau Marcio** .... 4

**Dibynadwyedd a Chysondeb Marcio** .... 7

**Asesiadau a Chyflwyno Gwaith yn Ddi-enw** .... 11

**Aseswyr** .... 13

**Uchafswm geiriau** .... 14

**Rheoli Deilliannau Asesu** .... 14

# 1. Meini Prawf Asesu a Chynlluniau Marcio

Mae meini prawf asesu'n helpu i ddiffinio'r safonau sy'n amlwg ar bwyntiau marcio gwahanol ac yn arwain y myfyrwyr ar y llwybr dysgu y maent wedi dewis ei ddilyn. Maent yn ddefnyddiol i staff i'w helpu i raddio asesiadau a rhoi adborth academaidd. Maent yn helpu i roi gwybod i fyfyrwyr pa nodweddion sydd eu hangen mewn aseiniadau a'u helpu i nodi'r hyn mae angen iddynt ei wneud i wella. Rhaid i staff a myfyrwyr gydweithio i sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth gyffredin o'r meini prawf sy'n berthnasol i dasgau gwahanol, deilliannau dysgu, a lefelau o astudiaeth academaidd. Lle bo'n briodol, caiff y meini prawf eu hategu gan gynlluniau marcio sy'n rhoi fframwaith mwy manwl ar gyfer dyrannu marciau. Mae cynlluniau marcio'n helpu aseswyr i farcio aseiniadau drwy nodi sut bydd marciau'n cael eu dyfarnu ar gyfer cydrannau gwahanol o gwestiwn neu nifer o gwestiynau. Maent yn aml yn cynnig atebion enghreifftiol, ond dylent ganiatáu ar gyfer hyblygrwydd lle mae'r myfyrwyr yn rhoi atebion gwahanol sy'n gyfystyr â'r safon cyrhaeddiad sy'n berthnasol i'r deilliannau dysgu.

## 1.1) Egwyddor

Rhaid mabwysiadu meini prawf asesu a/neu gynlluniau marcio clir mewn asesiadau sy'n rhan o raglenni a addysgir. Rhaid i'r rhain:

- gael eu rhannu gyda staff a myfyrwyr i sicrhau bod dealltwriaeth gyffredin o safonau academaidd yn cael ei chynnal;
- gael eu cysylltu â deilliannau dysgu ac yn ffocysu arnynt;
- fod yn gynhwysol ac yn gallu bodloni anghenion myfyrwyr gwahanol;
- fod yn addas at ofynion tasgau penodol ar wahanol lefelau academaidd;
- weithredu fel cyfeirbwynt i gynorthwyo staff academaidd i ddefnyddio eu barn broffesiynol yn hyderus;
- gael eu defnyddio i ddarparu adborth academaidd i fyfyrwyr ar asesiadau a hefyd;
- fel sy'n briodol, gael eu halinio â chyfeirbwyntiau proffesiynol, sy'n benodol i ddisgyblaeth, ar draws y sector.

## 1.2) Canllawiau

### 1.2.1) Cyflwyno'r meini prawf asesu

Y Meini Prawf Asesu sy'n nodi'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau y bydd myfyrwyr yn ceisio'u harddangos mewn tasgau asesu gwahanol. Mabwysiadwyd Meini Prawf Asesu Cyffredinol gan y Brifysgol a'u dylunio'n gyfeirbwynt i gefnogi Ysgolion a'u myfyrwyr i ddatblygu gwell dealltwriaeth o anghenion asesu a safonau academaidd. Fe'u dyluniwyd i gael eu defnyddio'n hyblyg ochr yn ochr â chynlluniau marcio penodol a'r meini prawf a ddefnyddir gan Ysgolion. Gellir eu defnyddio ar gyfer amrywiaeth o

ddulliau asesu a phrosesau ac i helpu i gefnogi gweithgareddau asesu ar draws yr holl raglenni a addysgir ym Mhrifysgol Caerdydd.

Dylai ysgolion nodi'n glir a yw cywirdeb sillafu, gramadeg ac atalnodi yn cael ei asesu hyd yn oed pan nad yw mân wallau'n effeithio ar eglurder yr ystyr. Mae arweiniad penodol ar Asesu myfyrwyr ag anawsterau ysgrifennu sy'n gysylltiedig ag anabledd hefyd ar gael.

### 1.2.2) Deall a defnyddio meini prawf asesu

Mae angen i staff sicrhau bod myfyrwyr yn rhan o'r trafodaethau i helpu i feithrin dealltwriaeth ar y cyd o feini prawf asesu. Bydd hyn yn galluogi myfyrwyr i ddeall y broses asesu yn well, ac yn rhoi iddynt yr wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau y mae angen iddynt eu harddangos mewn tasgau asesu. Yn ei dro, bydd hyn yn helpu myfyrwyr i nodi sut gallant ddefnyddio adborth i wella'u dysgu.

Dylai timau marcio feithrin dulliau lle gellir cynnal a chryfhau'r ddealltwriaeth a rennir o safonau. Ymhlith y gweithgareddau sy'n galluogi hyn mae partïon marcio ar y cyd, adolygu a graddnodi marcwyr gwahanol ar ôl Bwrdd Arholi, a gweithgareddau datblygu staff sy'n defnyddio arbenigedd allanol sy'n benodol i ddisgyblaeth.

Mae'n arfer da myfyrio'n rheolaidd ar y ffyrdd y defnyddir y meini prawf asesu i gefnogi’r marcio. Dylai Ysgolion geisio cynnal archif o asesiadau di-enw wedi'u marcio a dylid defnyddio hyn i helpu'r holl staff i gynnal dealltwriaeth gyffredin o feini prawf a safonau. Dylid defnyddio'r archif i helpu i gyfathrebu a rhannu safonau academaidd gyda staff newydd.

### 1.2.3) Meini prawf asesu, deilliannau dysgu ac adborth academaidd

Dylai'r adborth academaidd a roddir i fyfyrwyr ar dasgau unigol ymwneud â'r meini prawf sy’n berthnasol i’r asesiad hwnnw. Bydd hyn yn helpu myfyrwyr i nodi'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella'u perfformiad. Dylai'r meini prawf a fabwysiadwyd mewn asesiad unigol ymwneud â'r deilliannau dysgu sy'n cael eu hasesu yn y dasg honno, a fydd yn cael eu tynnu o'r deilliannau dysgu ar gyfer y modiwl hwnnw. Rhaid i'r aliniad rhwng y meini prawf asesu a'r deilliannau dysgu fod yn glir ac yn dryloyw. Nid yw hynny'n golygu y dylai'r staff gyfyngu’r adborth i sylwadau yn erbyn y meini prawf asesu. Dylai'r adborth ddangos cryfderau a gwendidau cyffredinol darn o waith ac ystyried unrhyw ddeilliannau anfwriadol sydd i'w gweld yn yr asesiad.

Bydd trafodaethau parhaus gyda myfyrwyr ynghylch y meini prawf asesu yn helpu i sicrhau bod myfyrwyr yn deall yr asesiad, a hefyd y sgiliau dysgu sy'n fwy pwysig ar lefelau uchel, y gofynion cynyddol a fydd yn cael eu rhoi arnynt, yr hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella'u perfformiad, ac ystyried sut gallant ddefnyddio sylwadau ar asesiadau blaenorol a'u bwydo ymlaen i'r gwaith nesaf.

### 1.2.4) Marcio categorïaidd

Mewn disgyblaethau eang, mae'n arfer da nodi'r pwyntiau penodol ym mhob dengradd lle dyfernir marciau (e.e. 62, 65 a 68). Mae defnyddio marcio categorïaidd yn cydnabod yn well lefel y manyldeb a all fodoli'n realistig mewn llawer o dasgau asesu.

Lle defnyddir marcio categorïaidd, dylid ei ddefnyddio gan bob marciwr a'i weithredu ar bwyntiau safonol (e.e. 2, 5 a 8). Mae marcio categorïaidd yn helpu i symleiddio ac arwain y dasg o ddyrannu marciau mewn nifer o dasgau asesu. Lle y'i defnyddir, ni ddylid defnyddio marciau ar wahân i'r pwyntiau diffiniedig ar gyfer darnau unigol o waith. Fodd bynnag, gallai'r asesiad terfynol a/neu farc y modiwl fod ar bwynt gwahanol, lle mae marciau categorïaidd yn cael eu cyfuno i greu marc cyfartalog ar gyfer y dasg honno / modiwl hwnnw. Rhaid i bwyntiau marc categorïaidd gwmpasu'r ystod marcio llawn.

### 1.2.5) Cynlluniau marcio

Lle y bo'n briodol, ac yn dibynnu ar natur y dasg, dylid ategu'r meini prawf asesu gan gynlluniau marcio (e.e. mewn asesiadau lle caiff marciau eu dyfarnu am gydrannau gwahanol cwestiwn neu nifer o gwestiynau.) Mae’n arfer da datblygu atebion enghreifftiol ar gyfer asesiadau lle mae cynlluniau marcio yn bodoli, yn arbennig lle defnyddir marcwyr lluosog, i helpu i roi arweiniad i’r marcwyr.

### 1.2.6) Hygyrchedd

Rhaid i bob myfyriwr gael cyfle cyfartal i ddangos ei gyrhaeddiad yn erbyn y deilliannau dysgu. O ganlyniad, dylid llunio tasgau asesu, ynghyd â'r meini prawf a'r cynlluniau marcio, gan gadw hygyrchedd mewn cof. Oherwydd amgylchiadau penodol, efallai y bydd angen i rai myfyrwyr gwblhau tasg wahanol, neu yr un dasg o dan amodau gwahanol, er mwyn dangos eu bod yn cyflawni'r un deilliannau dysgu. Mae'r Brifysgol fel arfer yn trefnu addasiadau o'r fath ar gyfer asesiadau drwy'r Rheoliadau Darpariaeth Benodol Adran 9.

Pan fydd tasg asesu amgen yn cael ei darparu fel addasiad rhesymol ar gyfer myfyriwr anabl, ni ddylid addasu'r deilliannau dysgu, a dylai Ysgolion sicrhau bod y dasg amgen yn ffordd briodol o'u profi. Fodd bynnag, efallai y bydd angen addasu'r meini prawf asesu er mwyn sicrhau eu bod wedi'u halinio â'r deilliannau dysgu yng nghyd-destun y dasg dan sylw.

Dylai ysgolion sicrhau bod myfyrwyr yn ymwybodol o'u dull o ymdrin â marcio gwaith myfyrwyr ag anabledd sy'n effeithio ar fynegiant iaith ysgrifenedig. Mae canllaw penodol ar Asesu myfyrwyr ag anawsterau ysgrifennu sy'n gysylltiedig ag anabledd ar gael. Dylai addasiadau rhesymol fel y rhain sicrhau bod gan fyfyrwyr anabl gyfle cyfartal i ddangos eu cyflawniad heb gyfaddawdu ar safonau academaidd nac effeithio ar safonau penodedig Cyrff Proffesiynol.

### 1.2.7) Marcio, safonau academaidd a barn academaidd

Mae angen i staff sicrhau bod myfyrwyr yn ymwybodol o rôl hanfodol barn academaidd wrth benderfynu ar ddeilliannau asesu. Er bod rhaid i staff ddefnyddio cynlluniau marcio a/neu feini prawf asesu i ategu eu barn, dylid hysbysu myfyrwyr y bydd llawer o dasgau asesu yn gofyn bod aseswyr yn arfer eu barn academaidd a/neu broffesiynol. Dylai myfyrwyr gael eu gwneud yn ymwybodol nad yw ceisiadau am apêl sy'n cwestiynu barn academaidd aseswyr yn dderbyniol.

### 1.2.8) Cyfathrebu safonau gydag arholwyr allanol

Rhaid i dimau'r Rhaglenni sicrhau bod meini prawf asesu, cynlluniau marcio a dulliau o wneud addasiadau rhesymol i fyfyrwyr anabl yn cael eu rhannu gydag Arholwyr Allanol, a lle bo'n briodol, gyda chyrff proffesiynol a statudol perthnasol. Dylai timau marcio gynnal deialog barhaus gyda'r Arholwyr Allanol i sicrhau bod dealltwriaeth a rennir o'r safonau academaidd.

## 2. Dibynadwyedd a Chysondeb Marcio

Cymedroli yw'r term cyffredinol a ddefnyddir i ddiffinio ystod y prosesau yr ymgymerir â hwy i sicrhau staff bod canlyniad asesiad yn ddilys ac yn ddibynadwy. Mae cymedroli mewnol, ynghyd â'r cymedroli a wneir gan Arholwyr Allanol, yn rhannau allweddol o'r ffyrdd o ddiogelu safonau a sicrhau uniondeb ym maes addysg uwch. Ymhlith y dulliau cymedroli mae adolygu sampl o sgriptiau, ail farcio, cyfarfodydd timau marcio, a chraffu ar farciau Byrddau Arholi a'u hadolygu. Er mwyn sicrhau bod prosesau cymedroli yn briodol bydd angen i ysgolion ystyried risgiau amrywiad (neu wall canfyddedig) mewn marciau ac ystyried pwysigrwydd asesiadau unigol i fyfyrwyr. Lle mae'r ddau beth yma'n uchel, bydd angen i ysgolion sicrhau bod mesurau diogelu priodol ar waith i gefnogi dibynadwyedd ac uniondeb marcio. Pan fydd risgiau gwallau a phwysigrwydd y tasgau asesu yn is, gall y lefel o gymedroli fod yn is. Wrth benderfynu ar eu dull gweithredu, bydd angen i ysgolion sicrhau bod eu prosesau'n ateb y disgwyliadau a nodwyd isod a'u bod yn bodloni'r Arholwyr Allanol a'r cyrff Proffesiynol a Statudol.

### 2.1) Egwyddor

Rhaid rheoli asesiadau mewn ffyrdd sy'n sicrhau tegwch, cysondeb a thryloywder.

### 2.2) Canllawiau

Rhaid i ysgolion sefydlu a gweithredu prosesau a gweithdrefnau sy'n sicrhau bod marcio'n ddibynadwy, yn gyson ac yn gywir. Rhaid hysbysu'r myfyrwyr

ynghylch y rhain.  Gall y prosesau a ddefnyddir gynnwys samplu, ail farcio, a/neu ddulliau cymedroli mewnol ac allanol eraill.

Wrth benderfynu ar y prosesau a fydd yn cael eu defnyddio, dylai Ysgolion ystyried risg gwallau wrth farcio a phwysigrwydd asesiad i'r myfyrwyr. Po uchaf yw'r risg o wallau a pho uchaf yw pwysigrwydd tasg asesu i fyfyrwyr, mwyaf trwyadl y bydd angen i'r craffu fod. Ymhlith y ffactorau sy'n effeithio ar risg gwallau mae nifer y marcwyr a'u harbenigedd, natur yr asesiad, argaeledd atebion enghreifftiol, eglurder y cynlluniau marcio, a'r gwrthrychedd sy'n gysylltiedig â'r asesiad. Dylid barnu'r pwysigrwydd i'r myfyriwr yn ôl yr effaith bosibl ar ganlyniadau'r radd, yr asesiad, a/neu benderfyniadau dilyniant, y pwys a roddir i'r dasg, a nifer credydau'r modiwl. Dylai risg gwallau a'u harwyddocâd i fyfyrwyr pob tasg sy'n cyfrannu at ddyfarniadau terfynol gael eu hystyried gan ysgolion i benderfynu pa gymedroli a wneir, os o gwbl. Ni ddisgwylir y bydd angen cymedroli ar gyfer canlyniadau asesiadau bach iawn lle ceir ateb 'cywir'.

Dylid cymedroli ar ôl marcio'r elfen asesu am y tro cyntaf, ac nid ar ôl cwblhau'r modiwl hwnnw. Bydd hyn yn golygu y gellir gwneud penderfyniadau ynghylch a yw safon marcio'r asesiad hwnnw yn briodol ar gyfer y dasg honno. Mae angen i ysgolion gydbwyso'r arferion cymedroli gyda'r angen i gynnal marcio'n effeithlon a rhoi adborth amserol a manwl i fyfyrwyr. Rhaid bod Ysgolion yn gallu cyfiawnhau'r prosesau a'r gweithdrefnau cymedroli y maent yn eu mabwysiadu, a darparu manylion y rhain drwy adolygiadau yr ymgymerir â hwy drwy brosesau ansawdd y Brifysgol.

Mae'r manylion a ddylai fod ym mhrosesau'r Ysgol yn cynnwys:

- Y gweithdrefnau a ddefnyddir i sicrhau bod marciau'n cael eu cyfrifo a'u trawsgrifio'n gywir;
- Pa ddarnau o waith a fydd yn destun prosesau cymedroli penodol;
- Pa gyfran o waith y garfan a fydd yn destun cymedroli;
- Diffiniadau grwpiau o aseswyr y gallai eu dulliau marcio fod yn destun craffu pellach;
- Y prosesau gwneud penderfyniadau a ddefnyddir pan fydd marciau'n wahanol rhwng aseswyr, a hefyd;
- Y ffyrdd y caiff canlyniadau cymedroli eu hadrodd i'r Byrddau Arholi.

### 2.2.1) Gwirio ac archwilio marciau

Mae'n hanfodol bwysig bod Ysgolion yn sicrhau bod y marciau a ddyfernir yn gywir, bod y marciau'n cael eu cyfrif yn gywir a bod y marciau terfynol yn cael eu cofnodi yn erbyn cofnod y myfyriwr cywir. Rhaid i ysgolion sicrhau

bod y prosesau a ddefnyddir yn eu diogelu rhag gwallau a sicrhau bod marciau'n cael eu trawsgrifio'n gywir.  Rhaid gweithredu'r prosesau hyn yn achos pob asesiad.

### 2.2.2) Samplu

Mewn llawer o dasgau asesu ysgrifenedig, bydd adolygiad o sampl o sgriptiau yn rhoi sicrwydd digonol i ffurfio barn ar briodoldeb y marciau cychwynnol. Dylai ysgolion archwilio ac adolygu sampl o sgriptiau wedi'u graddio ar bwyntiau gwahanol mewn tasgau sy'n gofyn i'r staff academaidd ddehongli a rhoi eu barn ar atebion. Mae angen penderfynu ar y sampl drwy ystyried maint y garfan a'r buddion i ddysgu a geir drwy roi adborth prydlon a manwl. Felly, mae'n debygol y bydd cyfran y gwaith a fydd yn cael ei samplu mewn dosbarthiadau mwy o faint yn llai. Fel isafswm, argymhellir bod yr holl sgriptiau sy'n cael eu marcio o dan y marc llwyddo yn cael eu cymedroli a bod sampl o ail isradd nifer y myfyrwyr sy'n ymgymryd ag aseiniad yn cael eu hadolygu, o leiaf.

### 2.2.3) Ail farcio

Ni ddylid ail farcio'r holl aseiniadau mewn tasg asesu unigol ond pan fydd y risg o amrywiad yn y marcio (neu'r canfyddiad o risg) yn uchel, a phan allai'r asesiad gael effaith sylweddol ar gynnydd myfyriwr a/neu'r dyfarniad terfynol. Rhestrir enghreifftiau o'r asesiadau lle'r argymhellir ail farcio isod. **Nid** yw'r rhestr hon yn hollgynhwysol.

- Traethodau hir a phrosiectau estynedig;
- Gwaith a gafodd ei farcio gan aelod o staff anacademaidd (wrth i'r hyder mewn unigolion sy'n farcwyr amhrofiadol gynyddu, gellir lleihau graddau'r cymedroli);
- Lle bo'n ymarferol, gwaith a wnaed ar leoliad y tu allan i'r Brifysgol;
- Lle cyflwynwyd tasg asesu amgen fel addasiad rhesymol i fyfyriwr anabl;
- Gwaith na ellir ei gyflwyno'n ddi-enw, a;
- Thasgau asesu a wnaed mewn sefydliad arall (e.e. fel rhan o raglen ar y cyd).

Pan fydd tasgau'n cael eu hail farcio, mae angen i ysgolion benderfynu a fydd gan yr ail farciwr fynediad i'r marciau a/neu'r sylwadau a roddwyd gan y marciwr cyntaf. Bydd rhoi mynediad i'r wybodaeth hon yn helpu i ddatblygu dealltwriaeth well a rennir o safonau academaidd, ond gallai olygu y byddai perygl bod y sylwadau hyn yn dylanwadu ar yr ail farciwr. Ni ddylid defnyddio'r dull marcio dwbl dall (h.y. lle nad yw'r ail farciwr yn ymwybodol o'r marciau a/neu'r sylwadau a roddwyd gan y marciwr cyntaf) mewn asesiadau lle nodwyd bod y risg o wallau marcio yn uchel iawn, a lle gallai'r marc gael effaith sylweddol ar ganlyniad terfynol myfyriwr.

Bydd angen i ysgolion benderfynu a fydd traethodau hir a phrosiectau estynedig eraill yn cael eu marcio gan oruchwylydd y prosiect yn gyntaf, neu fel arall. Ni ddylid marcio darnau estynedig o waith cwrs gan oruchwylwyr, fel

arfer, ond pan na fyddai'n bosibl i aelodau eraill o staff roi eu barn academaidd ar y cynnwys penodol a geir yn y darn o waith.

### 2.2.4) Ategu'r broses gymedroli

Dylai Ysgolion geisio cyflwyno ffyrdd o ddod â marcwyr at ei gilydd, i drafod a rhannu gwybodaeth am farcio a'r safonau y mae'r myfyrwyr wedi'u cyflawni. Mae cynnal cyfarfodydd tîm i adolygu'r marciau a roddwyd yn fodd gymharol effeithlon o gyflawni cymedroli, ac ar yr un  pryd, o helpu i feithrin dealltwriaeth well o'r safonau academaidd. Mae'n arfer da i dimau marcio adolygu ystod y marciau a ddyfarnwyd mewn tasgau a modiwlau gwahanol y tu allan i'r hyn a wnaed gan Fwrdd Arholi.

### 2.2.5) Datrys anghydfod rhwng marcwyr

Dylai ysgolion ddiffinio sut y penderfynir ar y marciau terfynol mewn achosion lle bydd dau farciwr yn dyfarnu marciau gwahanol. Lle bo modd, dylai'r marcwyr geisio dod at ei gilydd i gytuno ar farc, ac mewn achosion lle bernir bod y gwahaniaeth yn sylweddol, dylai'r marcwyr drafod gan ddefnyddio'r meini prawf asesu perthnasol, a chynlluniau marcio lle bo hynny'n briodol. Os na fydd y marcwyr yn gallu dod i gytundeb, dylid penodi 'trydydd marciwr' mewnol gan Gadeirydd y Bwrdd Arholi. Dylid rhoi'r ddau farc gwreiddiol i'r 'trydydd marciwr' a bydd ef neu hi'n penderfynu ar farc, gan nodi ei resymau dros wneud. Mewn rhai asesiadau, e.e cyflwyniadau, vivas ac ati, cydnabyddir na fydd fel arfer yn bosibl penodi trydydd marciwr. Pan fydd marcwyr yn anghytuno, a lle nad yw'n bosibl penodi 'trydydd marciwr', dylid mesur cyfartaledd y ddau farc gwreiddiol.

Ni ddylid gofyn i Arholwyr Allanol ddyfarnu a/neu weithredu fel 'trydydd marciwr' pan fydd dau farciwr mewnol wedi rhoi dau farc gwahanol iawn i'w gilydd. Pan fydd marcio am y trydydd tro yn digwydd, dylai'r ddau farc gwreiddiol gael eu rhoi i'r arholwyr allanol i helpu i ddangos y safon o dan sylw.

### 2.2.6) Addasiadau rhesymol i fyfyrwyr anabl

Rhaid i ysgolion nodi'r canlynol yn glir:

- eu dull o farcio gwaith gan fyfyrwyr ag anableddau sy'n effeithio ar fynegiant iaith ysgrifenedig;
- a gaiff gwaith myfyrwyr ag anableddau sy'n effeithio ar eu gallu i fynegi iaith yn ysgrifenedig ei nodi ('amlygu') i aseswyr, a sut y caiff hynny ei wneud;
- y broses a ddefnyddir i benderfynu a ddylid cyflwyno tasg asesu amgen fel addasiad rhesymol i fyfyriwr anabl, a hefyd;
- y broses a ddefnyddir i sicrhau cymaredd marciau ar gyfer asesiadau amgen, er enghraifft, y rhai y cytunwyd arnynt fel addasiadau rhesymol i fyfyrwyr anabl.

### 2.2.7) Graddio

Mewn nifer bach o asesiadau, efallai y bydd angen graddio er mwyn sicrhau bod dosbarthiad marciau'n gymaradwy ar draws gwahanol asesiadau ar yr un rhaglen. Er bod hyn yn brin, ac yn cael ei ddefnyddio’n amlach mewn disgyblaethau ac asesiadau lle gellid dyfarnu marciau uchel iawn neu isel iawn i'r holl fyfyrwyr drwy farcio cychwynnol (e.e. mewn asesiadau mathemategol), dylid hysbysu'r myfyrwyr pan wneir hyn a sut y bydd yn cael ei wneud os bydd angen.

### 2.2.8) Cyfuno Cydrannau Asesu

Mewn nifer bach o fodiwlau (sy'n ffocysu ar elfennau ymarferol fel arfer), gellir atodi asesiadau cydrannol unigol i ddosbarthiadau unigol. Pan ddigwydd hyn, argymhellir bod ysgolion, lle bo modd, yn cyfuno asesiadau lluosog i greu cydran asesu unigol. Drwy wneud hyn, bydd ysgolion yn gallu nodi un marc unigol ar gyfer yr asesiadau gwahanol, y gellir ei gyfrif o'r X gorau o'r tasgau asesu unigol Y (lle mae Y yn cynrychioli cyfanswm yr asesiadau, ac X yn cynrychioli nifer yr asesiadau y mae'n rhaid i fyfyriwr eu cwblhau.)

Drwy gyfuno asesiadau lluosog yn y ffordd hon, sicrheir na fydd myfyrwyr sy'n absennol o asesiad achlysurol yn cael eu cosbi'n annheg ac nad oes rhaid iddynt gwblhau ffurflen Amgylchiadau Esgusodol. Bydd hefyd yn annog myfyrwyr i gwblhau'r holl dasgau, o wybod y gallai eu marc wella os bydd iddynt gwblhau'r holl asesiadau unigol. Pan gaiff asesiadau unigol eu cyfuno yn y ffordd hon, rhaid i Ysgolion sicrhau bod cwblhau'r nifer penodedig o asesiadau yn galluogi myfyrwyr i ddangos eu bod wedi cyflawni'r deilliannau dysgu perthnasol, a chaniatáu i fyfyrwyr gyflawni unrhyw gymwyseddau proffesiynol perthnasol a/neu ofynion proffesiynol eraill.

### 2.2.9) Eglurder sgriptiau

Yn achlysurol, mae’n bosibl y bydd myfyrwyr yn cyflwyno gwaith nad yw'n ddarllenadwy. Pan ddigwydd hyn, a bod y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno'r asesiad wedi mynd heibio, dylai Ysgolion geisio cael y sgript wedi'i thrawsgrifio, lle bo modd. Gall Ysgolion godi tâl ar y myfyrwyr am y gwasanaeth hwn. Pan nad yw hyn yn bosibl, dylid cynnig cyfle fel arfer i'r myfyrwyr ailysgrifennu'r sgript i wneud yn siŵr ei bod yn ddarllenadwy ac y gellir ei marcio.

### 2.2.10) Sicrhau bod gwybodaeth ar gael

Rhaid gwneud myfyrwyr yn ymwybodol o'r prosesau cymedroli a ddefnyddir yn eu rhaglen. Dylid cyhoeddi'r wybodaeth hon yn llawlyfrau’r rhaglen a/neu ei chyhoeddi ar Ddysgu Canolog. Rhaid gwahodd Arholwyr Allanol i ystyried

a chyflwyno sylwadau ar y gweithdrefnau cymedroli a ddefnyddiwyd mewn rhaglenni i sicrhau bod y marcio yn ddibynadwy ac yn gyson.

## 3. Asesiadau a Chyflwyno Gwaith yn Ddi-enw

Bydd marcio dienw yn digwydd pan nad yw manylion y myfyriwr yn hysbys i'r aseswr pan gaiff y gwaith ei farcio. Mae'r Brifysgol yn gofyn bod pob asesiad yn cael ei farcio'n ddienw, lle bo modd. Mae marcio dienw yn dileu'r canfyddiad y gellir dod â rhagdybiaethau am fyfyrwyr unigol i'r broses farcio a bydd yn helpu i sicrhau myfyrwyr bod y marcio'n onest. Wrth sicrhau bod gwaith yn cael ei gyflwyno'n ddi-enw, bydd angen i ysgolion adolygu'r prosesau a ddefnyddir i dderbyn asesiadau, gofalu bod y gwaith ar gael i farcwyr, a dychwelyd gwaith i'r myfyrwyr. Mae angen i Ysgolion fod yn glir ynghylch pryd bydd manylion myfyrwyr yn hysbys i farcwyr, mewn Byrddau Arholi, a chefnogi'r broses o ddarparu adborth penodol parhaus i ddysgwyr.

### 3.1) Egwyddor

Lle bo modd, rhaid marcio asesiadau'n ddienw.

### 3.2) Canllawiau

Rhaid hysbysu myfyrwyr ynghylch unrhyw asesiadau na ellir eu marcio'n ddienw cyn y dasg honno. Gallai enghreifftiau o asesiadau lle na fydd yn bosibl marcio gwaith yn ddienw gynnwys arholiadau llafar, arfer clinigol, a pherfformiadau. Dylai Ysgolion ymdrechu i sicrhau bod traethodau hir a/neu brosiectau estynedig yn cael eu marcio'n ddienw pan nad yw'r gwaith yn cael ei farcio gan y goruchwylydd i ddechrau.

Mewn asesiadau lle bydd y staff yn darparu sylwadau unigol sy'n adeiladu ar adborth blaenorol a/neu adborth dewisol, bydd rhaid rhoi gwybod i'r staff am fanylion y myfyriwr wrth farcio. Lle caiff y strategaethau hyn eu mabwysiadu, rhaid rhoi gwybod i'r myfyrwyr pam y bydd marcwyr yn gwybod eu henwau a'r buddion posibl i'w dysgu yn sgil y strategaethau adborth hyn.

Lle bydd marcio yn ôl rhifau, gellir datgelu enwau'r myfyrwyr ar ôl marcio a'r broses gymedroli fewnol. Dylid gwneud enwau a rhifau myfyrwyr yn hysbys pan fydd marciau'n cael eu cofnodi er mwyn helpu i sicrhau eu bod yn cael eu cofnodi'n gywir ac y gellir eu gwirio. Nid oes angen i Fyrddau Arholi gael eu cynnal yn ddienw oherwydd na all Byrddau newid y marciau a ddyfarnwyd i fyfyriwr unigol. O dan amgylchiadau eithriadol (e.e. lle bo angen oherwydd anableddau myfyrwyr) gall Pennaeth yr Ysgol gymeradwyo datgelu enw myfyriwr cyn penderfynu ar farc mewnol a rhaid iddo roi gwybod i'r Bwrdd Arholi am amgylchiadau o'r fath.

Mae'r polisi ar asesu gwaith gan fyfyrwyr ag anawsterau ysgrifennu sy'n gysylltiedig ag anabledd wedi'i lunio i gefnogi marcio dienw gymaint â phosibl. Os bydd myfyriwr o'r fath wedi gofyn, bydd sgriptiau arholiadau'r Brifysgol yn cael eu nodi â sticer. O dan y polisi, gofynnir i Ysgolion ystyried a ddylid nodi gwaith cwrs hefyd ac, os felly, ddatblygu dulliau sy'n gyson â marcio dienw.

Dylai Ysgolion geisio datblygu a gwella prosesau i reoli'r gwaith asesu sy'n sicrhau bod canlyniadau asesiadau'n cael eu cofnodi'n gywir. Wrth wneud hyn, dylai Ysgolion geisio lleihau nifer y troeon y caiff marciau eu cofnodi a/neu eu trosglwyddo rhwng systemau gwahanol.

## 4. Aseswyr

Ni ellir caffael y sgiliau sydd eu hangen i farcio gwaith myfyrwyr a rheoli asesu dim ond trwy feddu ar ddealltwriaeth ddofn o'r pwnc. I ddatblygu cyd-ddealltwriaeth o’r safonau academaidd mewn rhaglen, rhaid magu profiad, ymgydnabod â’r diwylliant marcio, a meithrin dealltwriaeth ehangach o addysgeg ac o egwyddorion asesu. Mae angen i Ysgolion sicrhau bod pawb sy'n ymwneud ag asesu'n cael eu paratoi a'u cefnogi'n briodol wrth ymgymryd â'r rôl hon.

### 4.1) Egwyddor

Rhaid i’r holl aseswyr fod yn gymwys i ymgymryd â'u rôl, ac wedi'u haddysgu a'u cefnogi'n briodol.

### 4.2) Canllawiau

Mae dibynadwyedd a chysondeb marcio yn rhannol ddibynnol ar sgiliau aseswyr. Bydd Ysgolion yn mabwysiadu strategaethau sy'n galluogi'r holl staff i gael dealltwriaeth o arferion marcio a safonau academaidd. Mae'n bwysig bod aseswyr yn deall egwyddorion asesu ac y gallant asesu dysgu myfyrwyr mewn modd sy'n ddilys, yn ddibynadwy ac yn glir.

Rhaid bod aseswyr wedi ystyried materion amrywiaeth wrth gynllunio a dylunio asesiadau er mwyn sicrhau bod myfyrwyr yn cael eu trin yn deg. Os na ellir marcio tasgau asesu'n ddienw, dylai timau'r rhaglen ystyried sut y gallai gweithdrefnau a hyfforddiant helpu staff i leiafu unrhyw risg y gallai rhagfarn anfwriadol effeithio ar farcio.

Dylai rhaglenni datblygu staff Ysgolion gynnwys amrywiaeth o weithgareddau, fel bod modd asesu gwaith myfyrwyr yn ddibynadwy ac yn gyson. Dylid annog staff i fyfyrio ar arferion marcio, rhannu profiadau, a nodi anghenion datblygiad proffesiynol parhaus. Hefyd dylai Ysgolion geisio sicrhau bod amser a lle'n cael eu darparu i dimau marcio gymryd rhan mewn gweithgareddau datblygiad proffesiynol parhaus a hybu trafodaethau sy'n helpu i ddatblygu dealltwriaeth gyffredin well o addysgeg a safonau perthnasol. Dylai Ysgolion annog myfyrwyr ymchwil sy'n asesu myfyrwyr i ategu'r hyfforddiant gorfodol mewn ysgolion drwy fynychu sesiynau perthnasol a ddarperir drwy raglen hyfforddi Coleg Graddedigion y Brifysgol.

Dylai Ysgolion fabwysiadu strategaethau lle datblygir a chynhelir dealltwriaeth gyffredin o feini prawf ar draws yr holl staff sy'n marcio gwaith myfyrwyr. Dylai Ysgolion sicrhau hefyd bod staff sy'n newydd i farcio yn cael

y gefnogaeth briodol pan fyddant yn dechrau marcio am y tro cyntaf. Ymhlith rhai o'r dulliau y gallai Ysgolion eu mabwysiadu mae:

- Mentora staff newydd;
- Cyfarfodydd i adolygu marcio a wnaed gan dîm;
- Defnyddio sampl dienw o waith cyn fyfyrwyr er mwyn ymarfer marcio;
- Digwyddiadau wedi'u teilwra'n arbennig i ddatblygu staff;
- Ymarferion graddnodi i adolygu'r ystod marcio a ddefnyddir gan staff gwahanol.

## 5. Uchafswm geiriau

Bydd dull cyson wrth asesu gwaith sy'n hirach na'r terfyn geiriau yn helpu i sicrhau tegwch a galluogi myfyrwyr i ddatblygu ystod o sgiliau pwysig yn well. Dylid gwneud hyn drwy gymhwyso meini prawf asesu sy'n nodi bod angen i fyfyrwyr gadarnhau eu bod yn dilyn cyfarwyddiadau'r dasg.

### 5.1) Egwyddor

Bydd prosesau a gweithdrefnau'n cael eu cymhwyso'n deg ac yn gyson. Ni fydd myfyrwyr yn cael mantais annheg nac o dan anfantais annheg oherwydd anghysondebau wrth weithredu gweithdrefnau sy'n gysylltiedig ag Asesiad.

### 5.2) Canllawiau

Ni ddylai Ysgolion gymhwyso cosbau arwahanol i aseiniadau sy'n rhy hir. Lle bo hynny'n briodol, dylai Ysgolion nodi'n glir drwy'r deilliannau dysgu a'r meini prawf asesu bod aseiniadau'n ei gwneud yn ofynnol i fyfyrwyr fod yn gryno a glynu wrth y terfynau geiriau a bennwyd. Dylai ysgolion ymdrechu i sicrhau bod yr holl fyfyrwyr yn cael eu gwneud yn ymwybodol o'r angen i gyflwyno gwaith nad yw'n sylweddol hirach na'r terfyn geiriau. Dylid rhoi'r wybodaeth hon, ynghyd ag arweiniad priodol, i fyfyrwyr yn rheolaidd. Pan fydd myfyrwyr yn cyflwyno asesiadau sy'n rhy hir, dylai marcwyr orffen marcio'r aseiniad hwnnw, lle bo modd, a defnyddio'u barn academaidd i benderfynu ar farc ar gyfer y gwaith yn erbyn y meini prawf y cytunwyd arnynt. Pan fydd y meini prawf yn cynnwys y gallu i lynu at gyfarwyddiadau, fel terfyn geiriau penodol, gall marcwyr ddyfarnu marc is i waith sy'n hirach na'r terfyn geiriau. Pan fydd marcwyr lluosog yn marcio, dylent sicrhau bod y pwysoliad a gaiff ei gymhwyso i feini prawf gwahanol yn cael eu cytuno cyn y dasg a bod y broses gymedroli’n sicrhau cysondeb yn yr amrywiaeth barn a geir.

## 6. Rheoli Deilliannau Asesu

Bydd mabwysiadu dulliau cyson a thryloyw o ryddhau marciau yn helpu i sicrhau bod myfyrwyr yn cael gwybodaeth ac adborth clir ar eu perfformiad academaidd ar adegau priodol. Trwy fabwysiadu’r prosesau a’r gweithdrefnau a amlinellir isod, bydd Ysgolion yn gallu lleihau’r risgiau o roi

canlyniad anghywir i fyfyrwyr, gan helpu i sicrhau nad yw myfyrwyr yn ceisio cael mynediad i ganlyniadau cyn iddynt gael eu cadarnhau gan Fwrdd Arholi, a sicrhau y gall staff fod ar gael i roi arweiniad a chyngor pan fydd eu hangen.

## 6.1) Egwyddor

Rhaid darparu deilliannau asesiadau i fyfyrwyr mewn modd amserol a thryloyw.

6.1.1) Rhaid i Benaethiaid Ysgol wneud trefniadau i ryddhau canlyniadau dros dro asesiadau 'oddi mewn i'r flwyddyn' i'r myfyrwyr trwy SIMS wrth iddynt ddod ar gael.

6.1.2) Rhaid i Benaethiaid Ysgol hysbysu myfyrwyr cyn y Cyfnod Arholi nesaf ynglŷn â'r dyddiad y gall myfyrwyr ddisgwyl derbyn eu canlyniadau diwedd blwyddyn / cyfnod, cyn iddynt gael eu cadarnhau gan Fwrdd Arholi.

6.1.3) Rhaid i Benaethiaid Ysgol wneud trefniadau i ryddhau canlyniadau a deilliannau a gadarnhawyd i fyfyrwyr drwy SIMS ar-lein ar y dyddiad y trefnwyd i'r rhain gael eu rhyddhau.

6.1.4) Rhaid i Benaethiaid Ysgol sicrhau, ar ôl derbyn cais gwrthrych am wybodaeth yn ffurfiol, fod myfyrwyr yn cael copi o'r marciau a'r sylwadau ar eu sgriptiau arholiad o fewn 40 diwrnod ar ôl rhyddhau'r canlyniadau.

## 6.2) Canllawiau

### 6.2.1) Canlyniadau dros dro o asesiadau yn ystod y flwyddyn

Dylai staff geisio sicrhau bod y canlyniadau dros dro a gyflawnir gan fyfyrwyr mewn asesiadau y tu allan i'r Cyfnodau Arholi yn cael eu dychwelyd i'r myfyrwyr wrth iddynt ddod ar gael. Dylai Ysgolion hysbysu myfyrwyr bod y marciau a ddyfarnwyd ym mhob un o'r asesiadau yn ystod y flwyddyn yn rhai 'dros dro' ac y gellir eu newid cyn iddynt gael eu cadarnhau gan Fwrdd Arholi. Bydd Ysgolion yn annog myfyrwyr i fyfyrio ar y marciau a'r adborth a ddarparwyd ar dasgau asesu unigol, ac i ddefnyddio hyn i'w helpu i nodi sut gallant wella eu perfformiad a'u dysgu yn y dyfodol.

I gynorthwyo myfyrwyr i fyfyrio ar berfformiad, dylai staff sicrhau eu bod yn gyfarwydd â'r Polisi ac Arweiniad ar Adborth Academaidd i Fyfyrwyr ac yn eu gweithredu. Dylai Tiwtoriaid Personol sicrhau eu bod yn defnyddio'r cyfleuster yn SIMS sy'n eu galluogi i gael mynediad i'r ystod o farciau dros dro sydd wedi'u dyfarnu i'r myfyrwyr y maent yn eu tiwtora, fel eu bod yn gallu eu cynorthwyo i nodi sut gallant wella.

### 6.2.2) Rhyddhau canlyniadau i fyfyrwyr

Dylai Ysgolion gysylltu â staff y Gofrestrfa a'r Gwasanaethau Academaidd i gytuno ar y dyddiadau pan drefnir bod canlyniadau wedi'u cadarnhau ar gael i fyfyrwyr. Ar ôl cytuno ar y dyddiad hwn, dylai Ysgolion ychwanegu

gwybodaeth ar SIMS yn datgan y dyddiad rhyddhau canlyniadau ar gyfer carfan benodol. Ar y diwrnod hwnnw, bydd y canlyniadau yn cael eu rhyddhau ar SIMS am 9.30 am. Bryd hynny, trefnir bod PDF o'r trawsgrifiad interim ar gael a bydd modd gweld cofnod modiwlau'r myfyriwr ar SIMS. Ar ôl cwblhau eu rhaglen, bydd myfyrwyr yn cael trawsgrifiad terfynol cyflawn, a fydd yn cynnwys y marciau ar gyfer yr holl fodiwlau a gwblhawyd yn eu rhaglen.

Dylai Ysgolion geisio sicrhau bod staff ar gael ar y dyddiad pan gaiff canlyniadau eu rhyddhau er mwyn rhoi arweiniad a chyngor i fyfyrwyr, lle bydd angen hynny.

### 6.2.3) Mynediad at sgriptiau a chanlyniadau arholiadau

O dan weithdrefnau Cais Gwrthrych am Wybodaeth (SAR) o dan ddeddfwriaeth diogelu data, gall myfyrwyr wneud cais am fynediad i'w data personol ac mae ganddynt hawl i dderbyn copi o'r data hwn gan y Brifysgol oni bai bod eithriad yn gymwys. I wneud cais am ddatgelu adborth ysgrifenedig ar sgript arholiad, rhaid i fyfyriwr gyflwyno cais i'r Gwasanaethau Sicrwydd, a darparu prawf hunaniaeth. Yn unol â'r ddeddfwriaeth, mae gan y Brifysgol un mis calendr i gydymffurfio â'r cais, a chydlynir hyn gan y Gwasanaethau Sicrwydd ar ran yr Ysgol.

Ni chaniateir i fyfyrwyr herio barn academaidd y marcwyr ac i gydnabod yr egwyddor hon, cynhwysodd y deddfwyr eithriad penodol i'r hawl mynediad ar gyfer sgriptiau arholiad mewn deddfwriaeth diogelu data. Nid yw'r eithriad hwn yn ymestyn i unrhyw farciau neu sylwadau a wnaed ar y sgriptiau gan bobl eraill, sy'n golygu os yw myfyrwyr yn cyflwyno Cais Gwrthrych am Wybodaeth, bod y gyfraith yn rhoi hawl iddynt dderbyn copi o'r marciau a'r sylwadau ar eu sgriptiau arholiad ond nid y sgriptiau eu hunain. Fodd bynnag, oherwydd bod rhaid i'r wybodaeth a ddarperir fod yn ystyrlon, fel arfer mae'r Gwasanaethau Sicrwydd yn darparu llungopi o unrhyw dudalen o sgript sydd â naill ai marc neu sylw arni mewn ymateb i Gais Gwrthrych am Wybodaeth. Efallai bydd Ysgolion am adolygu eu hymarfer er mwyn cyfyngu ar y posibilrwydd o ryddhau sgriptiau arholiad a phenderfynu cyfyngu sylwadau ysgrifenedig i ddalen glawr ar wahân. Bydd hyn yn galluogi'r Gwasanaethau Sicrwydd i ymateb i Geisiadau Gwrthrych am Wybodaeth heb orfod ystyried rhyddhau cyfrannau sylweddol o'r sgript. Dylai'r holl sylwadau fod yn iaith yr asesiad a rhaid iddynt fod yn gynhwysol ac yn anwahaniaethol. Sylwch nad yw'r eithriad o dan ddeddfwriaeth diogelu data yn atal datgelu'r sgript o dan amgylchiadau lle mae'r mynediad dan oruchwyliaeth yn cael ei ystyried yn briodol, a bydd hynny yn unol â disgresiwn yr Ysgol.

Mae Polisi ac Arweiniad y Brifysgol ar Adborth Academaidd i Fyfyrwyr yn argymell y dylai myfyrwyr gael adborth ar eu perfformiad mewn arholiadau diwedd modiwl drwy adborth grŵp. Dylid darparu hyn ar berfformiad cyffredinol carfan mewn arholiadau, a dynodi meysydd lle gwnaeth myfyrwyr yn dda a/neu lle cawsant anhawster. Yn ogystal, dylai myfyrwyr sydd wedi methu modiwlau allu cyfarfod â staff academaidd ar gais i ganfod ym mha

ffyrdd y gallant wella. Rhaid cymhwyso'r broses hon yn gyson ar draws yr ysgol a rhaid iddi beidio â chyfyngu ar hawliau cyfreithiol y myfyrwyr.

Rhaid peidio â darparu canlyniadau a marciau i rieni nac unrhyw drydydd parti arall oni bai bod un o'r amodau canlynol yn berthnasol:

- Cafwyd caniatâd ysgrifenedig penodol (drwy e-bost) gan y myfyriwr;
- Mae'n ofynnol bod y Brifysgol yn gwneud hynny yn ôl y gyfraith neu offeryn statudol (fel y gall fod yn wir yn achos noddwyr);
- Lle mae hynny'n ofynnol er mwyn atal neu ganfod trosedd;
- Lle mae hynny'n ofynnol i'w rhyddhau i drydydd parti sydd wedi'i is-gontractio gan y Brifysgol i brosesu'r data mewn ffordd sy'n bodloni deddfwriaeth diogelu data.

Gall fod cytundebau ar waith gan noddwyr sy'n galluogi datgelu perfformiad academaidd myfyriwr. Dylid amlinellu hyn yn y Telerau a'r Amodau ar gyfer Deiliaid Dyfarniadau. Os oes unrhyw amheuaeth ynglŷn â datgeliadau, gwiriwch gyda'r Gwasanaethau Sicrwydd, yn inforequest@caerdydd.ac.uk.

## 6.3) Rhestr o'r termau sy'n gysylltiedig â Marcio

### 6.3.1) Marcio dienw

Marcio lle nad yw'r asesw(y)r yn gwybod pwy yw'r myfyrwyr. Lle gwneir hyn, dylid sicrhau bod y myfyrwyr yn parhau'n ddienw nes bod y marcio wedi'i orffen. Gellir datgelu manylion myfyrwyr ar ôl hynny er mwyn caniatáu i fyfyrwyr gael adborth ac i sicrhau bod y marciau'n cael eu cofnodi'n gywir.

### 6.3.2) Asesydd

Unigolyn sy'n gyfrifol am bennu asesiadau, marcio asesiadau, a/neu roi adborth i fyfyrwyr. Bydd y rhan fwyaf o'r aseswyr yn aelodau o Staff Academaidd y Brifysgol, ond mae'n bosibl y bydd myfyrwyr ymchwil ôl-radd ac unigolion allanol eraill yn cyfrannu at rai agweddau ar asesu.

### 6.3.3) Meini Prawf Asesu

Datganiadau sy'n disgrifio'r nodweddion a fydd yn cael eu hystyried wrth farcio tasg asesu a'r perfformiad sy'n ofynnol er mwyn ennill marciau. Bydd y meini prawf a ddewisir ar gyfer tasg unigol yn seiliedig ar y deilliannau dysgu a fwriadir, a ddewiswyd i ddangos y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau y bydd myfyrwyr yn eu harddangos yn nodweddiadol mewn tasg asesu.

### 6.3.4) Marcio Categorïaidd

Marcio drwy ddilyn pwyntiau marciau canrannol a ddiffiniwyd ac a bennwyd ymlaen llaw, yn hytrach na marcio i bob pwynt o fewn yr ystod ganrannol lawn.

### 6.3.5) Ail farcio

Dau aseswr gwahanol yn marcio gwaith myfyriwr. Mewn rhai achosion, bydd gan yr ail farciwr fynediad i sylwadau a/neu farc y marciwr cyntaf (marcio nad yw'n ddall). Mewn sefyllfaoedd eraill, gallai fod yn fwy priodol i'r ail farciwr beidio â gweld marc yr aseswr cyntaf (marcio dall).

Pan fydd ail farcio'n digwydd (dall neu fel arall), bydd y ddau farciwr fel arfer yn gwneud nodiadau er mwyn medru trafod a dod i benderfyniad pan fydd gwahaniaeth sylweddol rhwng barn y ddau farciwr.

### 6.3.6) Ateb enghreifftiol

Barn glir yr aseswr o'r hyn y dylai ateb i dasg asesu ei gynnwys. Defnyddir atebion enghreifftiol a/neu fodel yn fwy cyffredin pan fydd modd diffinio'r ateb cywir yn union.

### 6.3.7) Cynllun marcio

Fframwaith manwl ar gyfer pennu marciau, lle rhoddir nifer o farciau i gydrannau gwahanol o bob cwestiwn a/neu gwestiynau mewn tasg asesu.

### 6.3.8) Cymedroli

Y prosesau a gynhelir lle caiff canlyniadau asesu eu cadarnhau fel rhai dilys a dibynadwy a bod meini prawf asesu wedi cael eu cymhwyso'n gyson.

Mae dulliau cymedroli nodweddiadol yn cynnwys:

- Adolygu sampl o'r marcio cyntaf, naill ai gan arholwr mewnol neu allanol;
- marcio ychwanegol, er enghraifft, marciau ar y ffin, marciau dosbarth cyntaf, a marciau sydd wedi methu;
- adolygu'r marciau: lle ceir gwahaniaeth sylweddol rhwng sawl marc asesu, o fewn neu rhwng modiwlau, sy'n dangos y gallai fod angen adolygu'r marciau.

### 6.3.9) Graddio

Yr addasiad mathemategol a wneir i'r marciau a gyflawnwyd gan garfan o fyfyrwyr os bydd dosbarthiad y marciau yn yr asesiad hwnnw'n ymddangos yn wahanol iawn i dasgau eraill. Ni fydd angen graddio fel arfer, y tu allan i asesiadau mathemategol lle gellir cael set wahanol iawn o farciau.

### 6.3.10) Gwirio

Y prosesau a ddilynir i wirio bod marciau wedi cael eu cyfrifo a'u cofnodi’n gywir a sicrhau bod unrhyw ffactorau perthnasol eraill wedi cael eu hystyried yn briodol wrth benderfynu ar ganlyniadau myfyriwr.